

Prosiect Dyfodol Gwyrdd Tai Cymunedol Bron Afon: Cydwethio i Greu Dyfodol Gwell



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Bron Afon - Cymuned

Trosolwg

Rhaglen sy'n ceisio addysgu, cydwethio ac ymgynghori â staff, tenantiaid, aelodau a phartneriaid Bron Afon yw Dyfodol Gwyrdd. Roedd cynnwys tenantiaid, aelodau a phartneriaid - yn ogystal â'u hadborth - yn hanfodol yn ei llwyddiant ac mae'n dangos mai proses a gynhelir gyda phobl (yn hytrach na'i gorfodi arnynt) yw datblygu cynaliadwy.

Canlyniadau

Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru

Tystiolaeth

Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth

Cydwethio

Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau

Hir dymor

Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau

Cysylltu

Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

Tryloywder

Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Cefndir

Sefydliad Tai Cydfuddiannol Cymunedol nid-er-elw yw Bron Afon - Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (wedi'i gofrestru gydag Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol fel Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus gyda gwrthrychau elusennol). Fe'i sefydlwyd i reoli ystad tai cymdeithasol yr awdurdod unedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, pan bleidleisiodd tenantiaid o blaid trosglwyddo i landlord newydd ar 31 Mawrth 2008.

Gall holl denantiaid, lesddeiliaid a pherchnogion tai sy'n byw yn Nhorfaen ymaelodi â Bron Afon yn rhad ac am ddim. Mae ganddo 1,800 o aelodau erbyn hyn sy'n gallu dylanwadu ar sut mae'r sefydliad yn cyflawni ei amcanion.

Mae'r sefydliad yn rheoli tua 30,000 darn o dir o amrywiol faint sy'n cyfateb i 763,000 metr sgwâr.

"Rydym yn gyfrifol am reoli darnau enfawr o diroedd, ond torri'r glaswellt yw'r cyfan yr ydym wedi'i wneud hyd yma - gwario'r arian ar gynnal heb gynnig unrhyw fanteision gweledol i'n cymunedau. Roeddem am ystyried sut gallai'r lleoedd hyn esblygu, gwella a chynnig deilliannau hirdymor gwell."

Barbara Castle,
Cyfarwyddwr Cynnwys a Buddsoddi yn y
Gymuned

Pam

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno 'Safon Ansawdd Tai Cymru' sy'n gorfodi pob landlord cymdeithasol i wella a chynnal eu cartrefi yn unol â chyflwr gofynnol, gan wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac yn ddeniadol (o ran yr adeilad o dan sylw a'r ardal o'i gwmpas).

Cyflwyno rhaglen Dyfodol Gwyrdd fel rhagflaenydd ar gyfer datblygu rheolaeth amgylcheddol, cynaliadwyedd a strategaethau awyr agored oedd y bwriad gan ddod â phobl, tai a mannau gwyrdd agored ynghyd.

Paratoi prif egwyddorion ar gyfer mynd i'r afael â'n mannau agored a'r gwasanaeth rheoli cyfleusterau oedd y nod a gwnaethom hyn drwy gynnwys amrywiaeth eang o ran-ddeiliaid. Cynhaliwyd y gwaith yng nghyd-destun materion byd-eang, fel y newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth a'r prinder cynyddol o adnoddau naturiol. Yn ogystal â thrin a thrafod y materion hyn, mae'r broses wedi rhoi manteision amgylcheddol ac economaidd pwysig.

Beth wnaethon nhw

Datblygodd y syniad o fewn y Tîm Cynnwys y Gymuned a chafodd ei arwain gan Gyfarwyddwr Cynnwys a Buddsoddi yn y Gymuned, Barbara Castle, a'r Rheolwr Peirianyddol, Simon Morgan.

Cafodd cysyniad Dyfodol Gwyrdd ei gymeradwyo gan Bwyllgor a Bwrdd yr Aelodaeth, yn ogystal â'r staff a'r tîm rheoli. Aethpwyd ati wedyn i baratoi rhaglen a fyddai'n galluogi pobl oedd â diddordeb personol ym Mron Afon i fod yn rhan o gynllunio a phenderfyniadau hirdymor am sut defnyddir tiroedd a lleoedd.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Yn 2009, lluniwyd rhaglen un ar ddeg mis o hyd oedd yn cynnwys trafodaethau, sesiynau hyfforddi, seminarau a gweithdai ar gyfer tenantiaid a staff. Roedd yn mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, tyfu bwyd iach a sut mae pobl ifanc yn cael eu trin yn annheg o ran sut maent yn defnyddio lleoedd agored.

Lluniwyd y rhaglenni mewn cydweithrediad â phartneriaid gan gynnwys: Siopau Gwyddoniaeth Cymru, Cymru Gynaliadwy, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Torfaen, Cynnal Cymru, Plant y Cymoedd, Ffederasiwn Ffermydd Dinasoedd a Gerddi Cymunedol, Cadwch Gymru'n Daclus, Canolfan Rhagoriaeth mewn Adfywio yng Nghymru a Chomisiwn Dylunio Cymru. Mae pob un ohonynt wedi cyfrannu mewn nwyddau.

Yn 2010, achredodd Agored Cymru y rhaglen o dan Fframwaith Cymwysterau a Chredydau'r DU a'i rhoi ar waith.

Roedd pob sesiwn yn galluogi'r rhai a gymerodd ran i rannu syniadau mewn grwpiau a thrafodaethau am themâu penodol. Bu'r syniadau hyn o gymorth wrth baratoi strategaeth y dyfodol – yn ogystal â gwella sesiynau ymgysylltu yn y dyfodol.

Roedd y gyllideb o £6,000 yn fach yng nghyd-destun cwmpas y prosiect ac roedd yn rhaid ei wario yn ystod un flwyddyn dreth. Felly, roedd cael cymorth y rhai a oedd fod i elwa ar y gwaith a'r partneriaid yn hanfodol wrth wneud penderfyniadau. Roedd y sesiynau'n fodd o alluogi pobl i rannu eu safbwyntiau.

Defnyddiodd grŵp gorchwyl a gorffen y gwaith yr adborth o'r rhaglen i sefydlu egwyddorion a fyddai'r tywys y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth ar lefel gorfforaethol.

Pa rwystrau oedd yn bodoli

Cymerodd beth amser i'r rhaglen gael ei hachredu ond roedd gan y prif bartneriaid, WEA ac Agored Cymru, gryn brofiad ac adnoddau yn ogystal â phartneriaeth gadarn.

Daeth llawer o bobl i'r sesiynau ond roedd yn rhaid trefnu cludiant ar gyfer pobl oedd ag anawsterau symud neu'r rhai oedd heb gar.

Cafwyd peth gwrthwynebiad wrth roi syniadau newydd ar waith. Er enghraifft, roedd torri glaswellt yn llai aml er mwyn hybu bioamrywiaeth yn peri pryder gan ei fod yn anarferol ac am ei fod yn cymryd peth amser i flodau gwyllt dyfu ar ôl rhoi'r gorau i dorri glaswellt.

Gall prinder arian rwystro syniadau newydd rhag cael eu rhoi ar waith, ond cafodd y broblem hon ei datrys yn rhannol drwy gydweithio er mwyn cyflawni amcanion cyffredin.

“Mae Dyfodol Gwyrdd wedi ehangu gorwelion tenantiaid ac aelodau ac mae hyn wedi creu syniadau newydd.”

Simon Morgan,
Rheolwr Amgylcheddol

Beth newidiodd

- Cymerodd 96 o bobl (o'r bwrdd, cyrff partner lleol, ysgolion, clybiau ieuenctid, fforwm ieuenctid, yr awdurdod lleol ac asiantaethau cenedlaethol) ran yn y rhaglen.
- Derbyniodd 45 dystysgrifau achredu gan Rwydwaith y Coleg Agored (Agored Cymru).
- Cymerodd 24 o siaradwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol ran mewn cyflwyniadau a thrafodaethau.

Drwy'r Rhaglen, eglurodd y tenantiaid mai arweiniad yr oedd arnynt ei eisiau, nid isadeiledd drud – erbyn hyn, mae Tîm y Tiroedd, y Cyfleusterau a'r Ystadau'n cydweithio â thenantiaid er mwyn rheoli'r amgylchedd yn well. Rheoli lleoedd agored yw un o'r dangosyddion perfformiad pwysicaf i sawl tîm bellach.

Arweiniodd Rhaglen Dyfodol Gwyrdd at feithrin egwyddorion sydd, erbyn hyn, yn sail ar gyfer sut mae Bron Afon yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion: Rheoli lleoedd agored, paratoi cytundebau a chaffael gwasanaethau, rheoli cyfleusterau a chodi adeiladu newydd.

Mae'r ffordd newydd hon wedi rhoi llw o fanteision:

- Yn flaenorol, nid oedd Cyngor Torfaen yn gallu casglu deunyddiau i'w ailgylchu o fflatiau. Fodd bynnag, o ganlyniad i Ddyfodol Gwyrdd, mae Bron Afon wedi sefydlu system i gasglu'r deunyddiau hyn. Bu 75% yn llai o dipio anghyfreithlon rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2010 ar ôl treialu siopau biniau gwyrdd yn ardal St Dials.
- Cynorthwyodd archwiliad o dir o ran amlygu'r ffyrdd gorau o reoli lleoedd agored. Cytunodd y Bwrdd i ryddhau tir ar gyfer tenantiaid i'w reoli gyda chymorth Bron Afon. O ganlyniad, mae 14 o grwpiau tyfu cymunedol yn y fwrdeistref ac mae'r tîm rheoli cyfleusterau'n treialu tair ardal fioamrywiaeth.
- Mae 10,200m² o laswellt gwyllt wedi'i greu neu'i wella, gan annog gwenyn a mathau eraill o fywyd gwyllt.
- Mae'r rhaglen wirfoddoli wedi mabwysiadu chwe gardd ar gyfer cynlluniau ymddeol ac mae gwirfoddolwyr yn cydweithio â phreswylwyr hŷn er mwyn plannu a thyfu bwyd yn ogystal â chynnal eu prosiect rhandiroedd eu hunain.
- Sefydlwyd gwasanaeth i lanhau fesul bloc o ddydd i ddydd gan ddefnyddio cynhyrchion glanhau cwbl naturiol sy'n seiliedig ar olewau hanfodol.

Erbyn hyn, mae gan Fron Afon 17 o dimau cymunedol i fynd i'r afael â phryderon pobl drwy gymryd camau ymarferol. Fforwm Ieuenctid Bron Afon yw un o'r rhai prysuraf, ac mae bellach yn rhan o raglen i ddylunio ac adeiladu tai cynaliadwy ar gyfer pobl ifanc.

Mae gwasanaeth gofalu cymunedol ar waith hefyd. Cynorthwyodd hanner cant o amnestau mewn sgipiau yn 2011, gan atal dillad, beiciau a dodrefn rhag mynd yn wastraff drwy eu rhoi i elusennau neu bartneriaid ailgylchu dodrefn, Circulate.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Beth ddysgon nhw

- Drwy gydweithio â sefydliadau statudol a'r rhai sydd ag arbenigedd ar lefel leol neu genedlaethol, roedd penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth gadarn.
- Roedd cynnwys tenantiaid, aelodau, staff a phartneriaid lleol nid yn unig yn fodd o gael cefnogaeth leol, ond hefyd bod y gefnogaeth yn hyddysg.
- Ymhlith y bobl hynaf a'r ieuengaf yr oedd y negeseuon am arweiniad amgylcheddol yn cydio fwyaf. Yn sgil hynny, mae'r cenedlaethau hynod wahanol hyn wedi gweithio ar brosiectau fel gardd Belle Vue.
- Gan fod trosiant staff yn digwydd yn naturiol, bydd angen ailadrodd rhaglenni fel Dyfodol Gwyrdd, ond mae'r rhaglen wreiddiol wedi arwain at newid polisiau hirdymor y sefydliad.

Pa rwystrau oedd yn bodoli

Cymerodd beth amser i'r rhaglen gael ei hachredu ond roedd gan y prif bartneriaid, WEA ac Agored Cymru, gryn brofiad ac adnoddau yn ogystal â phartneriaeth gadarn.

Daeth llawer o bobl i'r sesiynau ond roedd yn rhaid trefnu cludiant ar gyfer pobl oedd ag anawsterau symud neu'r rhai oedd heb gar.

Cafwyd peth gwrthwynebiad wrth roi syniadau newydd ar waith. Er enghraifft, roedd torri glaswellt yn llai aml er mwyn hybu bioamrywiaeth yn peri pryder gan ei fod yn anarferol ac am ei fod yn cymryd peth amser i flodau gwyllt dyfu ar ôl rhoi'r gorau i dorri glaswellt.

Gall prinder arian rwystro syniadau newydd rhag cael eu rhoi ar waith, ond cafodd y broblem hon ei datrys yn rhannol drwy gydweithio er mwyn cyflawni amcanion cyffredin.

Manylion Cyswllt a Dolenni

Barbara Castle
Cyfarwyddwr Cynnwys a Buddsoddi yn y
Gymuned
Barbara.Castle@Bronafon.org.uk

Simon Morgan
Rheolwr Amgylcheddol
Simon.Morgan@Bronafon.or.uk

Bron Afon

**“Peidiwch â disgwyl
canlyniadau cyffredin. Bydd
canlyniadau ar wasgar ac yn
anrhagweladwy ar ffurf gwe.”**

Barbara Castle,
Cyfarwyddwr Cynnwys a Buddsoddi yn y
Gymuned

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

